

Grŵp Newid Hinsawdd y Sector Gwirfoddol

8fed Medi 2021, 10am tan 11.30am

Nodiadau

Mynychwyr

- Clare Rudall, Busnes yn y Gymuned
- Megan Thomas, Anabledd Cymru
- Peter Williams, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru
- Kate Hamilton, Adfywio Cymru
- Kevin Rahman-Daultrey, Maint Cymru
- Rachel Sharp, Ymddiriedolaeth Natur Cymru
- Gary Mitchell, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol
- Rebecca Brough, Y Cerddwyr
- Dave Williams, Llais y Goedwig
- Karen Balmer, Groundwork Gogledd Cymru
- Hayley Richards, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
- Hugh Russell, Canolfan Cydweithredol Cymru
- Sarah Germain, FareShare Cymru
- Rob Simpkins, Shelter Cymru

Croeso a Chyflwyniadau

Trafododd y grŵp y diffyg ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector gwirfoddol ynghylch materion newid yn yr hinsawdd, er enghraifft, cynllun Newid Hinsawdd Cyfnod 2 neu gynlluniau ar gyfer cynhadledd COP26.

Amlinellodd Ben Lloyd fod CGGC yn gweithio gyda swyddogion i symud camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Gwella blaenorol ar gyfer cyflenwi'r Cynllun yn eu blaen. Mae hynny'n cynnwys symud o ffocysu ar amserlen y cyfarfodydd i drefnu cyfarfodydd yn seiliedig ar ganlyniadau cyffredin rydyn ni'n dymuno eu cyflawni.

Blaenoriaethau cyffredin ar gyfer y llywodraeth

Cynhaliwyd trafodaeth ar natur ystod eang y portffolio, atebion i newid yn yr hinsawdd sy'n seiliedig ar natur a phlannu coetir masnachol.

Cynhadledd COP26

Cytunwyd i ofyn am gynnal cyfarfod â'r Gweinidog cyn cynhadledd COP26. Mae amser yn brin a byddai'n ddefnyddiol pe bai modd cynllunio o amgylch cynnwys arfaethedig Llywodraeth Cymru yng nghynhadledd COP26 yn ogystal ag adeiladu sgysiau ar gyfer cydweithredu dros y tymor hirach.

Mae'r amlinelliad o'r agenda i'w gyflwyno fel a ganlyn

- Gweithgarwch a pharatoadau'r Llywodraeth cyn cynhadledd COP26

- Gweithgarwch a pharatoadau'r sector gwirfoddol cyn cynhadledd COP26
- Cyfleoedd ar gyfer gweithredu ar y cyd ar newid yn yr hinsawdd

Perchnogaeth Gymunedol

Amlinellodd Hugh y papur mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn gweithio arno a fydd yn ystyried sut y caiff tir cymunedol ei ddefnyddio, diwygio tir, hawliau tir, a chofrestrfa tir.

Y Goedwig Genedlaethol

Mae gan nifer o fudiadau ddiddordeb yn y Goedwig Genedlaethol. Mae gan Llais y Goedwig ddiddordeb penodol ac maent yn gweithio ar hyn yn ogystal ag onglau megis bioamrywiaeth, mynediad, perchnogaeth, a mentergarwch.

Bydd y Llywodraeth yn gwneud penderfyniadau ar hyn cyn hir. Cytunwyd i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog i ofyn am gynnal cyfarfod ynghylch cynigion y Goedwig Genedlaethol.

Camau Gweithredu

- Hugh i ddsbarthu fersiwn ddrafft o'r papur Hawl y Gymuned i Brynu er mwyn derbyn sylwadau.
- CGGC i hwyluso cyfarfod o rwydweithiau sy'n ystyried Hawl y Gymuned i Brynu / Hawliau Cymuned i ddod ynghyd i archwilio ar y cyd â rhanddeiliaid eraill â diddordeb lle y gallai fod materion cyffredin ar gyfer llais ar y cyd.
- Gary i rannu adroddiadau a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Hinsawdd er mwyn i'r grŵp ystyried meysydd y gellir eu defnyddio ar gyfer papur yn y dyfodol.
- CGGC i ysgrifennu at y Gweinidog Newid Hinsawdd i ofyn am gynnal cyfarfod â'r grŵp cyn cynhadledd COP26 i drafod blaenoriaethau a chyfleoedd i gydweithredu ac i gynnal cyfarfod ar ôl cynhadledd COP26 i drafod camau gweithredu a godwyd.
- CGGC i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd i ofyn am gyfarfod penodol yn gysylltiedig â'r Goedwig Genedlaethol.